

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2023 Rhif 443 (Cy. 68)

ADDYSG, CYMRU

**Gorchymyn Cyflog ac Amodau
Athrawon Ysgol (Cymru) 2023**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer penderfynu'r tâl ar gyfer athrawon ysgol (o fewn ystyr adran 122 o Ddeddf Addysg 2002 (p. 32)) yng Nghymru ac amodau cyflogaeth eraill ar gyfer athrawon ysgol yng Nghymru sy'n ymwneud â'u dyletswyddau proffesiynol a'u hamser gweithio.

Mae'r Gorchymyn yn gwneud y ddarpariaeth hon drwy gyfeirio at adran 2 o ddogfen o'r enw "Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2022 a chanllawiau ar gyflog ac amodau athrawon ysgol (diwygiedig) – Ebrill 2023" ("y Ddogfen"). Gellir canfod y Ddogfen ar wefan Llywodraeth Cymru: <https://llyw.cymru/addysgu-ac-arweinyddiaeth>.

Mae'r Gorchymyn yn gwneud darpariaeth ôl-weithredol, o dan adran 123(3) o Ddeddf Addysg 2002, er mwyn darparu bod y darpariaethau a nodir yn adran 2 o'r Ddogfen yn cael effaith ar ac ar ôl 1 Medi 2022 er bod y Gorchymyn yn dod i rym ar ôl y dyddiad hwnnw (erthygl 2).

Mae'r Gorchymyn yn dirymu Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2022 (erthygl 3) ac mae'n disodli'r tâl a'r amodau cyflogaeth eraill ar gyfer athrawon ysgol yng Nghymru y rhoddwyd effaith iddynt gan y Gorchymyn hwnnw.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth Uned Strategaeth y Gweithlu, Yr Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2023 Rhif 443 (Cy. 68)

ADDYSG, CYMRU

**Gorchymyn Cyflog ac Amodau
Athrawon Ysgol (Cymru) 2023**

Gwnaed 19 Ebrill 2023

Gosodwyd gerbron *Senedd*
Cymru 20 Ebrill 2023

Yn dod i rym 12 Mai 2023

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 122(1), 123 a 124 o Ddeddf Addysg 2002(1), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(2), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Mae Gweinidogion Cymru yn unol ag adran 126(3) o'r Ddeddf honno wedi ymgynghori â'r personau hynny a'r cyrff hynny y cyfeirir atynt yn yr adran honno yr oedd yn ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn briodol.

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2023 a daw i rym ar 12 Mai 2023.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i athrawon ysgol yng Nghymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn—

mae i "athro neu athrawes ysgol" yr ystyr a roddir i "school teacher" gan adran 122(3) i (6) o Ddeddf Addysg 2002;

(1) 2002 p. 32. Diwygiwyd adrannau 122 a 123 gan erthygl 5(1) o O.S. 2010/1158 a chan baragraff 11 o Ran 1 o Atodlen 2 iddo.

(2) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Weinidogion Cymru gan erthygl 39 o Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018 (O.S. 2018/644).

(3) Trosglwyddwyd y swyddogaeth hon o'r Ysgrifennydd Gwladol i Weinidogion Cymru gan erthygl 39 o Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018 (O.S. 2018/644).

ystyr “y Ddogfen” (“*the Document*”) yw’r ddogfen o’r enw “Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2022 a chanllawiau ar gyflog ac amodau athrawon ysgol (diwygiedig) – Ebrill 2023” ac a gyhoeddir ar wefan llyw.cymru(1).

Y Ddogfen

2. Mae’r darpariaethau a nodir yn adran 2 o’r Ddogfen yn cael effaith ar ac ar ôl 1 Medi 2022 at ddibenion penderfynu—

- (a) y tâl ar gyfer athrawon ysgol, a
- (b) amodau cyflogaeth eraill ar gyfer athrawon ysgol sy’n ymwneud â’u dyletswyddau proffesiynol a’u hamser gweithio.

Dirymu

3. Mae Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2022(2) wedi ei ddirymu.

Jeremy Miles

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion
Cymru
19 Ebrill 2023

(1) <https://llyw.cymru/addysgu-ac-arweinyddiaeth>

(2) O.S. 2022/1184 (Cy. 243).